



# Camsyniadau a Ffeithiau

Sipsiwn a Theithwyr



# Sipsiwn a Theithwyr

## Camsyniadau a Ffeithiau

Paratowyd y daflen hon i roi gwybodaeth i bobl leol am Sipsiwn a Theithwyr.

Mae Sipsiwn wedi bod yn rhan o'n cymdeithas ers cannoedd o flynyddoedd.

Mae Sipsiwn Romani yn byw yn y DU ers dros 500 mlynedd.

Mae Teithwyr Gwyddelig yn byw yn y DU ers rhyw 150 o flynyddoedd.

Heddiw, rydym yn dyfalu bod rhwng 250,000 a 300,000 o Deithwyr traddodiadol yn byw ym Mhrydain.

Mae gan Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig hawl i fyw bywyd crwydrol. Mae bywyd crwydrol yn golygu teithio o gwmpas ac aros mewn gwahanol leoedd i ennill bywoliaeth. Y broblem yw nad oes digon o safleoedd awdurdodedig ar gael ar eu cyfer. Mae nifer o'u hen wersylloedd wedi cau felly mae'n anodd iddynt wersylla yno'n awr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt wersylla lle bynnag y gallant, weithiau gyda chaniatâd y tîrfeiddianwyr a thro arall heb ganiatâd.

Maent yn aros yn Sir y Fflint am nifer o wahanol resymau:

- i fynychu digwyddiadau teuluol megis priodasau;
- i ymweld â pherthnasau;
- i aros wrth deithio drwy'r ardal;
- i weithio;

- i ymweld â'r ffynnon yn Nhreffynnon.

Fel grwpiau ethnig lleiafrifol eraill, mae gan Sipsiwn a Theithwyr ieithoedd, traddodiadau ac arferion unigryw sy'n eu harwain trwy fywyd. Mae'r rhain yn cael eu trosglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall. Mae rhai Sipsiwn a Theithwyr wedi brwydro a marw dros y wlad hon yn ystod y ddau ryfel byd.

### Camsyniad

"Nid oes raid i Sipsiwn a Theithwyr anfon eu plant i'r ysgol."

### Ffaith

Mae gan blant Sipsiwn a Theithwyr hawl gyfreithiol i gael eu haddysgu fel pob plentyn arall. Mae gan y rhieni'r un cyfrifoldeb cyfreithiol â phob rhiant arall i addysgu eu plant.

Mae'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr yn ymweld â'r teuluoedd ac yn cydweithio â nhw a'r ysgolion lleol i leoli plant mewn ysgolion cyfagos.

### Camsyniad

"Nid yw Sipsiwn a Theithwyr yn talu trethi."

### Ffaith

Mae pob Sipsi a Theithiwr sy'n byw ar safleoedd sy'n perthyn i awdurdod lleol neu safleoedd preifat yn talu'r dreth gyngor, rhent, biliau nwy, trydan ac unrhyw gostau eraill yr un fath â phobl mewn tai cyffredin.

# Sipsiwn a Theithwyr

## Camsyniadau a Ffeithiau

Yn gyffredinol, nid yw'r rheiny sy'n byw ar wersylloedd diawdurdod yn talu'r dreth gyngor, ond yn gyffredinol nid ydynt yn derbyn unrhyw wasanaethau. Yn achlysurol caiff gwasanaethau sylfaenol eu darparu, megis toiled neu fin ar olwynion, ac mae rhai Sipsiwn a Theithwyr yn talu am y gwasanaethau hynny'n uniongyrchol i'r awdurdod lleol priodol.

Mae holl breswylwyr y DU yn talu treth ar bopeth a brynant gan gynnwys petrol.

Mae Sipsiwn a Theithwyr yn talu TAW ar bopeth a brynant.

### Camsyniad

"Mae Sipsiwn a Theithwyr yn byw ar fudd-daliadau heb roi unrhyw beth yn ôl i'r gymdeithas."

### Ffaith

Nifer fach iawn o Sipsiwn a Theithwyr sy'n derbyn budd-daliadau...

Mae nifer o deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr, sy'n treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn teithio o un dadfeddiant i'r llall, yn ei chael yn anodd cael gafael ar y budd-daliadau cywir (os o gwbl) heb gyfeiriad sefydlog.

### Camsyniad

"Nid yw Sipsiwn a Theithwyr byth yn gweithio!"

### Ffaith

Mae eu gwaith traddodiadol yn cynnwys llafur amaethyddol tymhorol, pedlera, gwneud basgedi a phrynu a gwerthu ceffylau.

Mae eu harferion gwaith wedi datblygu o ganlyniad i anghenion y gymdeithas fodern ac maent bellach yn gwneud gwaith tirlunio, garddio, gosod tarmac, gwerthu moduron, prynu a gwerthu metel sgrap a thorri coed.

Mae'n gyffredin hefyd i Sipsiwn a Theithwyr gael eu cyflogi fel athrawon, academyddion a gweithwyr yn y sector cyhoeddus, yn ogystal â'r diwydiant adloniant.



### Camsyniad

"Mae Sipsiwn a Theithwyr yn meddiannu tir pobl eraill ac nid oes modd cael gwared arnynt."

### Ffaith

Mae gan Sipsiwn a Theithwyr hawl i fyw bywyd crwydrol ond nid oes digon o safleoedd awdurdodedig ar gael i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Hefyd mae sawl man aros traddodiadol bellach wedi cael eu hamddiffyn i atal Teithwyr rhag

# Sipsiwn a Theithwyr

## Camsyniadau a Ffeithiau

gwersylla yno. Mae hyn yn golygu fod Teithwyr yn cael eu gorfodi i wersylla lle bynnag y gallant.

### Camsyniad

“Mae Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn carafannau”

### Ffaith

Mae Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu cydnabod am eu diwylliant, eu hiaith a'u credoau eu hunain. Er hynny, mae deddfau

cynllunio yn diffinio Sipsiwn fel pobl sy'n

byw bywydau crwydrol. Er bod hyn yn arfer bod yn wir yn y gorffennol, mae 90% o Sipsiwn y byd bellach yn byw mewn tai. Mae bywyd crwydrol yn fwy cyffredin yng ngorllewin Ewrop. Ond hyd yn oed yma, dim ond 50% o Sipsiwn sy'n byw mewn carafán. Mae Sipsiwn hefyd yn byw mewn tai ond yn mynd â'u diwylliant dan do gyda nhw.

### Camsyniad

“Mae Sipsiwn a Theithwyr yn fudr.”

### Ffaith

Mae diwylliant y Sipsiwn yn seiliedig ar godau glanweithdra llym sydd wedi'u trosglwyddo dros y canrifoedd ar y ffordd. Er enghraifft, mae cysyniadau megis 'mokadi' a 'mahrime' yn gosod

canllawiau llym wrth bennu pa wrthrychau sy'n cael eu golchi mewn gwahanol fowlenni.

### Camsyniad

“Mae Sipsiwn a Theithwyr yn cael torri'r gyfraith heb gael eu cosbi”

### Ffaith

Fel pob aelod arall o'r Gymuned, mae'r Heddlu yn eu trin yn gadarn ac yn deg. Er bod yr heddlu yn cosbi unrhyw un sy'n troseddu, ni allant weithredu yn erbyn cyhuddiadau neu honiadau heb dystiolaeth.

### Camsyniad

“Nid yw awdurdodau lleol yn trafferthu i ymdrin â Sipsiwn a Theithwyr sy'n parcio ar dir sy'n perthyn i'r Cyngor”

### Ffaith

Mae gan bob Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i reoli gwerysloedd diawdurdod.

Pan fo tir sy'n perthyn i Gyngor Sir y Fflint yn cael ei ddefnyddio fel gwerysll, rydym yn ymgymryd â'r gweithdrefnau canlynol:

- Ymweld â'r safle cyn gynted ag sy'n bosibl (cyn pen 48 awr fel arfer).
- Sicrhau bod y safle'n daclus ac asesu a yw'n cael unrhyw effaith ar drigolion / busnesau lleol ac asesu unrhyw rwystrau ar briffyrdd neu

hawliau tramwy cyhoeddus.

- Yn unol â'r gyfraith, rydym hefyd yn ystyried unrhyw anghenion iechyd neu les.

Os yw'r amgylchiadau'n caniatáu, mae'n bosibl i wersylloedd diawdurdod gael eu goddef am gyfnod byr.

Os penderfynir na chaniateir i wersyll diawdurdod aros, byddwn yn ceisio cynnal trafodaethau i bennu terfyn amser sy'n dderbyniol i'r naill ochr a'r llall cyn y bydd gofyn i wersyllwyr diawdurdod symud.

Os yw hynny'n methu, mae gan bob awdurdod lleol bwerau swyddogol i droi gwersyllwyr diawdurdod allan.

Mae'r penderfyniad hwn yn amodol ar y Deddfau Hawliau Dynol a Chysylltiadau Hiliol. Gall bobl fynd i'r Llys i herio unrhyw benderfyniad a wneir gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â gwersylloedd diawdurdod os ydynt yn teimlo nad oedd yn un teg. Er y gall ymdrechu i gau gwersylloedd diawdurdod heb ddilyn y gweithdrefnau perthnasol ymddangos yn ateb cynt, fe allai hynny arwain at achosion llys hirfaith a chostus iawn.

**Os oes gwersyll diawdurdod yn cael ei sefydlu yn eich ardal, ffoniwch 01352 702122 neu 702613**

